Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Carreg Emlyn
# Clocaenog
# Rhuthun
# LL15 2AY

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Carreg Emlyn

Lleolir Ysgol Carreg Emlyn ym mhentref Clocaenog, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 79 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 6 plentyn rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 69% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac nid oes un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 14% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2014 a hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol. Gweithredodd yr ysgol fel un ysgol, ar ddau safle, yng Nghlocaenog a Chyffylliog ers Medi 2014. Symudodd yr ysgol i mewn i adeilad, sydd newydd ei adeiladu, ar ddechrau Mehefin 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu a darllen effeithiol ac maent yn cyflawni'n dda. Pan gânt gyfleoedd pwrpasol i ysgrifennu'n ymestynnol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ar draws y cwricwlwm, o ystyried eu mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael cysyniadau mathemateg cadarn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn deall bod cadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach yn cyfrannu'n helaeth at eu lles.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n ddiwyd am y disgyblion mewn ffyrdd synhwyrol a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol, gan deimlo bod yr ysgol yn rhan bwysig o'u cymuned. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion yn fawr.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth wedi ei seilio ar weithdrefnau rheoli priodol. Mae hi'n cydweithio'n agos gyda'r athrawon a'r cymorthyddion ac wedi sefydlu gweithdrefnau addas yn yr adeilad newydd mewn amser byr iawn. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac mae'r arweinwyr yn targedu'r meysydd i'w datblygu yn foddhaol trwy weithdrefnau hunanwerthuso a chynlluniau datblygu addas.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r gweithdrefnau arweinyddol, gan gynnwys y llywodraethwyr, i fynd i'r afael â'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella

A2 Sicrhau cysondeb yn yr addysgu, gan gynnwys y weithdrefn olrhain cynnydd a'r defnydd a wneir o wybodaeth asesu i gynllunio'n effeithiol

A3 Herio'r holl ddisgyblion i wella'u cyflwyniad, eu medrau ysgrifennu ymestynnol a'u rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd yn cyfateb i, neu'n uwch na'r, safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg cadarn ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n effeithiol yn erbyn eu targedau personol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Maent yn hyderus ar lafar yn y Gymraeg ac yn deall bod gwrando'n astud yn cyfrannu'n bwysig at eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n huawdl am eu gwaith ac yn aros eu tro yn gwrtais ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eraill. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn disgrifio eu hymdrechion i adeiladu gondola yn dda, a'r rheswm pam maent yn anfon nwyddau mewn bocsys esgidiau i wledydd tramor. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, yn enwedig wrth iddynt adrodd hanes Apollo 11 yn glanio ar y lleuad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn gywir, trwy fabwysiadu strategaethau ffonig defnyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau yn eglur. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau'n synhwyrol, fel adnabod mai 'ciao' yw'r gair i gyfarch a ffarwelio yn Eidaleg. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu'n glir yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu'n dda rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn ymchwilio'n gydwybodol ar y we, fel cymharu bywyd plentyn yn oes y Tuduriaid â heddiw. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn llwyddiannus.

Pan gânt y cyfleoedd mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol, fel cyfarwyddiadau i olchi dwylo, a llythyr o ddiolch yn dilyn ymweliad â fferm leol. Yng nghyfnod allweddol 2, pan gânt gyfleoedd ymestynnol priodol, mae llawer yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cerddi ar effaith ddatgoedwigo ar anifeiliaid ein byd, ac olrhain hanes Owain Glyndŵr, yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu ymestynnol y disgyblion, a chyflwyniad eu gwaith, yn adlewyrchu eu galluoedd yn ddigon dda. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni'n ddigon uchel i gyfatebu i'w gallu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn deall cysyniadau mathemategol yn dda. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i ymestyn eu gwybodaeth yn effeithiol yn ystod gwersi. Er enghraifft, maent yn echdynnu gwybodaeth o graffiau bloc, sy'n adlewyrchu eu hoff ffrwyth yn dda. Yn ogystal, maent yn gwrthdroi eu gweithdrefnau rhif yn hyderus trwy rannu a lluosi darnau o bitsa, a defnyddio graddfeydd yn ddeallus i fesur cyfeintiau poteli gwahanol.

Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn deall cysyniadau rhif yn dda a'u defnyddio yn hyderus. Mae eu defnydd o ddata yn gynyddol gywir ac maent yn ei gyflwyno

mewn amryw ffurf i gyflawni tasgau mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn amcangyfrif graddau onglau wrth ddylunio byngalo ac yn trosi unedau Fahrenheit a Celsius, trwy ddefnyddio graff trawsnewid. Yn ogystal, maent yn hyderus wrth arbrofi â thebygolrwydd trwy daflu ceiniogau. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus i ddatrys problemau yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Yn aml, maent yn dibynnu'n ormodol ar arweiniad oedolyn i gyflawni'r dasg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio rhaglenni addysgol yn dda i animeiddio taith o gwmpas y gofod, a lleisio geiriau Grace Darling ynglŷn â'i helyntion ar y môr. Mae bron pob un yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf addas i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn creu basau data defnyddiol i fewnbynnu gwybodaeth am ba mor bell maent yn taflu peli. Maent yn cwestiynu a threfnu gwybodaeth yn hyderus ar ôl casglu holiaduron i lanw sŵ ag anifeiliaid anghyffredin. Mae bron pob un yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn bwrpasol i fewngofnodi i wefannau dysgu, i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder am eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli. O ganlyniad, maent yn fodlon iawn trafod unrhyw bryderon gyda'r staff ac yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt.

Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn gyson dda. Mae bron pob un yn hynod o foesgar, yn hyderus ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gyfarfod ag oedolion. Maent yn sgwrsio'n aeddfed, gan fynegi barn yn glir a hylaw wrth drafod stori Moses a'r Môr Coch ac effaith plastig ar yr amgylchfyd. Mae bron pob disgybl yn gweithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn synhwyrol. Mae gan bron pob un ohonynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod y gwersi. Fodd bynnag, mae'r awydd i gyflwyno'u gwaith yn raenus gan y mwyafrif yn foddhaol. Nid yw'n adlewyrchu digon o barch tuag at eu cynnyrch dyddiol yn y dosbarth.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu at fywyd dyddiol yr ysgol yn bwrpasol. Mae'r llysgenhadon gwych yn hybu egwyddorion hawliau plant, gan sicrhau bod safbwyntiau a syniadau'r disgyblion yn cael sylw teilwng ac yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ogystal, mae'r criw clên yn wyliadwrus ar y buarth o'u cyfoedion, sydd yn atgyfnerthu'r ethos teuluol yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach yn dda. Maent yn cymryd rhan reolaidd mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu gwersi ac yn allgyrsiol. Mae hyn yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gofalu am eu cyrff yn llwyddiannus. Maent yn deall y peryglon all godi yn eu bywydau bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen i'w diogelu eu hunain. Er enghraifft, mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgìl defnydd anghyfrifol o'r we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf yn wybodus am wledydd sydd yn datblygu'n economaidd a'r rhai sydd dan anfantais, oherwydd rhyfeloedd, newyn neu sychder. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gadarn am fywyd a gwaith pobl o wledydd eraill fel Kenya ac Uganda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos empathi effeithiol tuag at eraill ac yn datblygu'n bwrpasol fel dinasyddion byd-eang.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cyfrannu at fywydau pobl eraill. Maent yn codi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi casglu arian tuag at sicrhau dŵr glân, heb heintiau, mewn gwledydd tramor sydd dan anfantais. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd eu cyfraniadau at greu cymdeithas ofalgar.

Mae bron pob un disgybl yn cyfrannu'n fuddiol iawn i fywyd yr ysgol, fel cyfrannu eu syniadau at ddewis eu gwisg ysgol a chynllunio'r ardaloedd allanol. Maent yn dechrau arwain eu dysgu eu hunain trwy ddewis heriau, sy'n ymwneud â'r themâu tymhorol. Fodd bynnag, cynnar yw eu cyfraniadau at lywio'r cwricwlwm a gwneud dewisiadau am yr hyn maent am ei ddysgu.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd da mae'r ysgol yn eu darparu iddynt i gymryd cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae gwaith criw y ddraig yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau safonau llafar da y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r berthynas foesgar sydd yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn annog parch a chwrteisi ac yn arwain at awyrgylch gweithgar ymhob dosbarth. Mae cyflwyniadau'r rhan fwyaf o'r gwersi yn eglur ac mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu priodol gyda'r disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer y disgyblion sydd yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus, er enghraifft trwy drefnu ymweliadau i'r fferm leol ac i amgueddfa Lerpwl. Cefnogir brofiadau dysgu'r disgyblion ymhellach trwy amrywiaeth eang o weithgareddau fel dathlu diwrnod y llyfr, sioeau gan gwmni theatr ac ymweliad gan nyrs o'r filfeddygfa lleol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymrwymo i'w dysgu yn frwdfrydig iawn.

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn seiliedig ar themâu diddorol, a chaiff y disgyblion gyfleoedd priodol i gyfrannu at eu dysgu trwy drafod eu syniadau ar gychwyn y gwaith thema. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysgu'r athrawon bob amser yn canolbwyntio digon ar sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau mewn modd adeiladol. Yn ogystal, nid yw'r athrawon yn mynnu gweld gwelliannau yng nghyflwyniad gwaith y disgyblion, sydd yn rhy isel i'w gallu.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ymarfer eu medrau llafar yn llwyddiannus. Mae bron pob aelod o'r staff yn modelu iaith safonol yn fedrus. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn annog y disgyblion yn effeithiol i ddefnyddio cystrawennau cywir, i dreiglo a chyfoethogi eu geirfa yn gyson. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n naturiol yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau darllen a mathemateg y disgyblion ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn.

Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ymestynnol na'u medrau rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud cystal cynnydd yn y meysydd hyn.

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac uchelgeisiol. Ar adegau, mae'r athrawon yn gorarwain dysgu'r disgyblion, sydd yn llesteirio eu gallu i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Gwneir defnydd da o'r staff cymorth ar draws yr ysgol. Maent yn cefnogi dysgu unigolion a grwpiau o ddisygblion penodol yn hynod lwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

O fewn amser byr, ers symud i mewn i'r adeilad newydd, mae'r staff wedi llwyddo creu awyrgylch ddysgu liwgar ac ysgogol ar gyfer y disgyblion. Gwneir defnydd da iawn o'r ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn yr ardaoledd chwarae rôl ac yn gwella eu medrau corfforol yn yr ardal chwaraeon allanol, sef 'Cwrt Caenog'

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau addysgu, sydd yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn dyfalbarhau'n dda yn ystod y gwersi. Mae holi medrus llawer o'r athrawon yn ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynnig adborth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i gynllunio camau nesaf dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau bob amser yn ddigon dibynadwy. O ganlyniad, nid yw'r tasgau dilynol o hyd yn ddigon heriol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni cystal ag y gallant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn cynnig cymorth a chefnogaeth gadarn iddynt. Rhoddir pwyslais ar sicrhau lles pob disgybl o fewn awyrgylch deuluol a gofalgar. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel, yn dangos parch a chwrteisi at eraill ac yn ymddwyn yn gyson dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn effeithlon. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gwersi dilynol ar gyfer y disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw asesiadau'r athrawon bob amser yn ddigon dibynadwy. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth o hyd yn bodloni gofynion pob disgybl i'w herio i gyrraedd hyd eithaf eu gallu.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer yr ychydig ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn cynnwys targedau gwella mesuradwy ar gyfer datblygu medrau darllen a rhifedd y disgyblion. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn cael cyfleoedd pwrpasol i gyfrannu at werthuso cynnydd a gosod targedau ar gyfer gwella. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a'r gefnogaeth o fewn y dosbarthiadau yn gadarn ac yn cefnogi dysgu disgyblion penodol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae gan yr ysgol berthynas dda gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda hwy ac yn gweithredu polisi drws agored yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhieni yn ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu ar eu cyfer er mwyn iddynt ddeall sut i gefnogi eu plant. Mae enghreifftiau llwyddiannus yn cynnwys gweithdai iaith a chwarae, darllen a diogelwch ar y we.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn ardderchog. Mae'r ysgol yn cynnig nifer helaeth o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau, a llwyddo mewn eisteddfodau lleol a chendlaethol. Mae'r staff yn trefnu ymweliadau difyr, gan gynnwys cyfle i'r disgyblion fynychu gweithdy tecstiliau mewn canolfan grefftau leol. Maent yn hybu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am hanes a diwylliant Cymru yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion efelychu gwaith artistiaid o Gymru, fel Aneurin Jones, a dysgu am hanes carchar Rhuthun. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a chymdeithasol sydd yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy nifer o weithgareddau fel gwersi nofio a chlybiau chwaraeon allgyrsiol, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau trwy ymgymryd â rolau o fewn yr amryw bwyllgorau sy'n bodoli. Mae'r profiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cyfrannu at gymdeithas, ac yn eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol yn gadarn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar werthoedd mewn gwasanaethau dyddiol.

Mae'r gweithgareddau i sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein yn drylwyr ac effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, o oed ifanc, yn deall pwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel. Yn y dosbarthiadau, mae'r staff yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt o fewn y themâu tymhorol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dechrau cael mwy o ddylanwad ar yr hyn maent am ei ddysgu.

Mae'r ysgol yn hybu gwerthoedd cynaliadwyedd yn effeithiol, er enghraifft trwy dyfu llysiau yn y clwb garddio a gweithgareddau sydd yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd cadwraeth coedwigoedd a masnach deg.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Ers symud i mewn i'r adeilad newydd yn ddiweddar iawn, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau rheoli priodol mewn amser byr. Mae hi'n annog awyrgylch teuluol, sy'n seiliedig ar ofal a chymorth cadarn. Mae'r pennaeth yn hybu ethos hynod ofalgar, diogel a chynhwysol, sy'n sicrhau lles a safonau da ymysg y disgyblion. Mae'r pennaeth yn arwain y staff yn llwyddiannus i fynd i'r afael â materion cenedlaethol, fel hybu'r Gymraeg a gweithredu fel ysgol iach gynaliadwy. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cefnogi athroniaeth a gweithredoedd rheoli yr ysgol, sy'n seiliedig ar fwriad eglur i 'fwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd'.

Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn foddhaol. Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r arweinwyr yn mesur eu cynnydd dros amser yn erbyn y blaenoriaethau yn briodol i adnabod agweddau sydd yn llwyddo neu angen sylw pellach. Fodd bynnag, er bod gan yr ysgol amserlen fonitro benodol, sydd yn bennaf yn llwyddo i wella lles disgyblion, nid yw'r gweithdrefnau'n arwain at sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Nid yw'r arweinwyr yn monitro'r argymhellion dilynol o'r adroddiadau craffu yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, nid ydynt wedi llwyddo i wella agweddau pwysig o'r cynllunio a'r asesu, ac nid yw adborth i athrawon yn ddigon cyson i wella'u harferion addysgu ymhellach.

Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gweithdrefnau rheoli dydd i ddydd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rolau fel arweinwyr strategol wedi datblygu'n llawn. O ganlyniad, nid ydynt yn effeithio'n gadarnhaol ar wella agweddau pwysig o'r ddarpariaeth er mwyn gwella safonau disgyblion ymhellach, fel monitro effaith y cynllunio a'r addysgu yn ddigon trylwyr.

Trwy dderbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Mae eu rôl yn cyfrannu at y gweithdrefnau hunanwerthuso yn addas ac maent yn monitro'r cynllun datblygu yn foddhaol. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol, fel dilysu asesiadau risg i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion. Maent yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n addas, sy'n cynnwys cymorthyddion i gefnogi'r disgyblion ar lawr y dosbarth trwy ymyraethau llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn herio'n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol, nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cadarn.

Mae'r pennaeth yn amserlennu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn dda, i hybu medrau cerddorol a chelfyddydol y disgyblion. Yn ogystal, mae gweithdrefnau pwrpasol yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a'r cymorthyddion. Maent wedi eu cysylltu'n synhwyrol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiad personol y staff. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a medrau TGCh y disgyblion. Mae'r pennaeth yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i'r athrawon gydweithio ag ysgolion lleol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r defnydd da iawn a wneir o'r ardaloedd dysgu allanol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella safonau disgyblion ac yn gwella dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Er mai yn ddiweddar iawn yr ymgartrefodd yr ysgol yn ei hadeilad newydd, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau defnydd effeithiol o'r adnoddau. Mae hyn yn cefnogi cyflawniad y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella safonau yn cael eu defnyddio'n dda. Mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac mae'r monitro trylwyr o'r cyllid yn sicrhau effaith fuddiol ar gynnydd disgyblion. Enghreifftiau llwyddiannus o hyn yw cyllido profiadau dysgu, fel ymweliadau preswyl i ganolfannau addysgol a gweithgareddau gwerthfawr oddi ar safle'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2019